# CYNGOR CYMUNED CLYNNOG FAWR

-------------------------------------------

Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Clynnog fawr a gynhaliwyd yn Neuadd y Pentref, Clynnog nos Fawrth 19eg o Fai 2026

**1.** Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod

**2. <u>Ymddiheuriadau</u>** - Siôn Tomos, Gwenno Griffiths, Guto Huws, Iwan Williams a Rhys Jones.

**<u>Presennol</u> -** Aaron Hughes (cadeirydd), Eifion Jones (is-gadeirydd), Thomas Williams, Ken Williams, Eleri Owen., Eirian Allport, Elias Jones, Eilir Evans, Siân Evans, Gethin Roberts, Cyng. Dafydd Davies.

Croeso i bawb, a rhoddwyd croeso arbennig i aelodau newydd ar y cyngor sef Eilir Evans, Siân Evans a Gethin Roberts a diolchwyd iddynt am roi o'u hamser i hyn.

**3. <u>Datgan buddiant</u>** – nid oedd gan unrhyw aelod fuddiant.

**4. <u>Ethol swyddogion ar gyfer 2026/27</u>** - Trafodwyd a chynigwyd bod pethau yn aros fel ag yr oeddynt sef Cadeirydd - Aaron Hughes ac Is-gadeirydd - Eifion Jones. Eiliwyd y cynnig a chytunodd y ddau i hyn. Diolchwyd iddynt am eu gwaith dros y flwyddyn a diolch am gytuno i barhau am flwyddyn arall.

**5. <u>Cofnodion cyfarfod 21ain o Ebrill 2026</u>** – Cynigwyd gan Elias Jones ac eiliwyd gan Eifion Jones fod y cofnodion yn gywir.

**5. <u>Materion yn Codi</u>**

1. Ynys Wyllt - esboniodd Aaron Hughes y sefyllfa i'r aelodau newydd. Adroddwyd bod e-bost wedi ei dderbyn gan y cyfreithwyr yn gofyn i gadarnhau manylion y tir ar gyfer y cofrestra tir. Angen newid y map gan fod yna fwy o dir na sydd yn y llun. Hefyd wedi derbyn rhestr gan y gyfreithwraig o bethau sydd angen er mwyn profi mai'r Cyngor Cymuned sydd berchen y tir. Mynd trwy'r rhestr a'r clerc i sortio cael y manylion. Egluro iddi fod angen cofrestru Parc Tlodion, os ydi hi isio gwneud hyn rŵan hefyd yntau disgwyl i neud Ynys Wyllt gyntaf?

2. Mynediad i'r fynwent - Esbonio'r sefyllfa i'r aelodau newydd. Nid oedd dim pellach i'w adrodd ar y mater felly angen dilyn fyny ar hyn gyda'r cyfreithwyr.

3. Pont Tai Lôn a Pantafon - Pont Tai Lôn wedi ei thrwsio ond Pantafon eisiau ei thrwsio. Cyng. Dafydd Davies adrodd ei fod ar raglen waith Cyngor Gwynedd.

4. Arwydd cyflymder - adrodd bod Cyngor Gwynedd wedi nôl yr arwydd ond mae rhan ohono ar goll ac angen cael y darn. Cyng. Davies i gysylltu â'r cwmni ar gyfer cael beth sydd eisiau.

5. Biniau – hyn mewn llaw adroddodd Cyng. Davies.

6. Cwynion am chwyn o gwmpas y pentrefi - rhannau wedi cael ei chwistrellu, ond llawer o rannau dal angen sylw. Canclwm yn broblem mewn llawer o lefydd. Adroddodd Thomas Williams bod Arwel Jones contractwr torri llwybrau'r Cyngor Cymuned yn gwneud gwaith gwaredu canclwm. Hefyd, cafwyd enw person arall sydd yn delio a hyn a chytunodd Eifion Jones i siarad ag o. Gofyn iddynt am bris i chwistrellu'r chwyn a hefyd gwaredu'r canclwm. Cyng. Dafydd Davies adrodd bod tîm ardal ni Cyngor Gwynedd yn gwneud hyn a buasai yn well ganddyn nhw adael y gwaith iddyn nhw neud. Trafod y mater ein bod wedi gofyn i Gyngor Gwynedd wneud y gwaith ond nid oes dim yn cael ei wneud.

Arwyddwyd ………………………………………………………… (Cadeirydd)

Dyddiad ……………………………………………………………….

7. Ffoes Simbil - dal dim wedi ei wneud. Ryan James Williams (CG) sydd yn newydd i'r gwaith am ddod o gwmpas yr ardal a sôn wrtho am hyn.

8. Golau Nadolig – hyn mewn llaw.

9. Torri Gwair - disgwyl am ymateb gan Gyngor Gwynedd i ddweud os ydynt am wneud y toriadau ychwanegol eto eleni.

10. Goryrru yn Nhai Lôn - ymatebodd swyddog o Gyngor Gwynedd eu bod wedi ystyried y sefyllfa ar y ffordd hon yn flaenorol. Ar hyn o bryd, mae Tai'n Lôn yn ddarostyngedig i derfyn cyflymder o 60mya. Mae hyn oherwydd nad yw'r ffordd yn bodloni'r meini prawf presennol sy'n ofynnol ar gyfer gostwng y terfyn cyflymder, megis dwysedd datblygiadau preswyl, presenoldeb goleuadau stryd parhaus, a nodweddion trefol eraill. O dan y canllawiau presennol ar Osod Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru, nid yw'r pentrefan yn cyrraedd y trothwyon angenrheidiol ar hyn o bryd ar gyfer lleihau'r terfyn cyflymder. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar Osod Terfynau Cyflymder Lleol ar hyn o bryd yn destun adolygiad cenedlaethol. O ganlyniad i hyn, mae pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi cytuno i atal adolygiadau newydd o derfynau cyflymder hyd nes y caiff y canllawiau diwygiedig eu cyhoeddi. Disgwylir i'r canllawiau newydd gael eu rhyddhau rywbryd yn 2026. Unwaith y bydd y canllawiau newydd ar gael, bydd modd ailystyried statws Tai'n Lôn yn erbyn y gofynion diwygiedig, os bydd hynny'n briodol. Fodd bynnag, mae gwaith wedi'i wneud yn ddiweddar i wella'r arwyddion wrth fynedfeydd y pentref er mwyn atgyfnerthu ymwybyddiaeth gyrwyr o'r terfyn cyflymder presennol. Yn ogystal, mae trefniadau eisoes ar waith i adnewyddu'r marciau ffordd, a dylai hyn gynorthwyo ymhellach wrth wella ymddygiad gyrwyr drwy'r ardal.

11. Goryrru yng Nghlynnog Fawr - Cyngor Gwynedd wedi cydnabod bod yna broblem goryrru yn y pentref. Rhag weld y bydd hyn yn gwaethygu pan fydd y garej yn dechrau gwerthu petrol. O'r wybodaeth yn dilyn adolygiad gan Gyngor Gwynedd gweler bod y mwyafrif o yrwyr yn teithio i mewn i Glynnog ar gyflymder cyfartalog sy'n uwch na'r terfyn cyflymder o 20mya, ond yn anffodus nid yw'n cyrraedd y trothwy gofynnol ar gyfer gorfodi gan Uned Gan Bwyll Gwasanaeth Heddlu Gogledd Cymru. Mae'n bwysig nodi yn ogystal bod teithwyr yn gyrru'n is na'r cyfyngiadau cyflymder ger Llys Eben sydd yn galonogol dros ben. Adroddodd Cyngor Gwynedd y byddant yn trosglwyddo'r wybodaeth hon i'r Uned Gan Bwyll sydd wedi derbyn cyllid grant yn ddiweddar i gynnal 'Ymgyrch Atal', sef cynllun ymgysylltu ar ymyl y ffordd gyda'r nod o addysgu gyrwyr am effaith goryrru ar ein cymunedau. Maent yn defnyddio dyfais mesur cyflymder i dargedu gyrwyr sy'n gyrru dros y cyfyngiadau cyflymder ac yna rhoddir dewis i'r troseddwyr rhwng derbyn collfarn am oryrru neu dderbyn cyngor ar wella eu hymddygiad gyrru. Mae'r ymgyrch yma wedi bod yn llwyddiant a'r gobaith fydd iddynt weithredu yng Nghlynnog hefyd gyda chanlyniadau positif i rannu gyda rhanddeiliaid y gymuned.

**6. Ceisiadau cynllunio** - dim

**7. Materion ariannol**

a) <u>Sefyllfa ariannol ar 28ain o Ebrill 2026</u>

| | |
|---|---|
| Cyfrif cadw (elusen) | £159.70 |
| Cyfrif cyfredol | £7705.68 |

b) Anfonebau i'w talu – Designer Signs = £504.60
- Wix = £230.40

Cytunwyd i'r clerc dalu'r anfonebau uchod.

**8. Bioamrywiaeth -** trafodwyd bod angen trin rhywogaeth ymledol.

**9. Gohebiaeth -** pawb wedi cael copïau o'r ohebiaeth ac nid oedd dim yn codi.

Arwyddwyd ………………………………………………………… (Cadeirydd)

Dyddiad ………………………………………………………………….

**10. Materion aelodau** - Cyng. Dafydd Davies - adrodd bod grant ar gael gan Gyngor Gwynedd er budd y gymuned - efallai y buasai modd cael arwydd cyflymder ar gyfer Tai Lôn o dan y grant. CCTV - trafod bod angen systemau o gwmpas - adroddiadau bod dwyn wedi bod yn digwydd yn yr ardal. Cynnig i gael system wedi ei osod ar y neuadd - ceisio am hwn ar y grant. Thomas Williams - hysbysfwrdd ym Mhontllyfni, mae'r plastig wedi mynd yn wyn oherwydd y tywydd. A oes posib holi Designer Signs am wyneb newydd iddo. Aaron Hughes am gael pris hefyd. Cae chwarae Lleuar Terr - oes posib cael bwrdd picnic. Cynnig i geisio am hwn ar y grant. Holi Rhian Williams (CG) am y safle bws i Aberdesach. Ken Williams - holi ynglŷn â beth sy'n digwydd hefo'r bwrdd picnic i glan môr Pontllyfni. Cynnig i roi i lawr ar y grant. Holi Dylan Herbert am unrhyw adroddiadau a dyddiad i gyfarfod cyhoeddus.

**11. Materion eraill –** nid oedd dim yn codi.

**12. Cyfarfod nesaf -** Bydd y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Cymuned yn cael ei gynnal ar nos Fawrth, 16eg o Fehefin 2026 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Clynnog Fawr.

Arwyddwyd ………………………………………………………… (Cadeirydd)

Dyddiad ………………………………………………………………